

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 12 EBRILL 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Jacobsen a/ac Kelloway

54 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau

55 : CAIS AM GRANT TRWYDDED EIDDO - CANOLFAN DŴR GWYN RHYNGWLADOL CAERDYDD

Yn bresennol:

Ymgeiswyr Steven Burkitt-Harrington, Ymgynghorydd Digwyddiadau
Ben Longhurst, Rheolwr

Pobl Eraill â Diddordeb: Ben Clark, Jean Foxhall, Paul Foxhall – trigolion lleol

Y Cais

Derbyniwyd cais ar gyfer rhoi Trwydded Safle gan Ddatblygu Economaidd Cyngor Caerdydd (Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd) mewn perthynas â Chanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Watkiss, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddadwy canlynol:

- (i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
- (ii) Darparu adloniant a reoleiddir ar ffurf ffilmiau (dan do ac awyr agored), digwyddiadau chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do ac awyr agored) a cherddoriaeth wedi'i recordio (dan do ac awyr agored).

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Mae Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored a adeiladwyd yn bwrpasol yng nghanol Bae Caerdydd. O dan amodau gweithredu arferol mae'r ganolfan yn gweithredu caffi bychan a chyfleuster arlwyo i gynnig lluniaeth i'r mynychwyr sy'n defnyddio'r ganolfan, preswylwyr cyfagos a hefyd i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau bach a gynhelir yn y ganolfan. Yn ogystal, mae'r ganolfan yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored mawr sy'n denu nifer fwy o bobl o bryd i'w gilydd."

(3) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 to 23:30

Nos Galan: Tan 01:00 o'r gloch y bore ar Ddydd Calan

- (4) I ddarparu gweithgareddau trwyddadwy yn ystod yr oriau canlynol:
- (i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:
Dydd Llun i ddydd Sul 11:00 i 23:00
Nos Galan: 11:00 i 01:00 y bore
 - (ii) Darparu adloniant a reoleiddir ar ffurf ffilmiau (dan do ac awyr agored) a digwyddiadau chwaraeon dan do:
Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 to 23:00
 - (iii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (dan do):
Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 to 23:00
Nod Galan: 08:00 i 01:00 y bore

Ar ddechrau'r cyfarfod, ceisiodd y swyddogion egluro beth oedd capasiti'r ardal drwyddadwy. Dywedodd yr ymgeisydd fod y capasiti ar gyfer 6,000 o bobl ac y byddai maint unrhyw gynulleidfa yn hysbys ymlaen llaw. Atgoffwyd Aelodau nad yw unrhyw ddigwyddiad gyda llai na 500 o bobl yn bresennol ar gyfer cerddoriaeth fyw a recordiwyd yn cael ei reoleiddio (rhwng 08:00 a 23:00). Ni fyddai ychwaith unrhyw ddigwyddiad chwaraeon dan do gyda llai na 1000 o bobl yn mynychu yn cael ei reoleiddio. Felly, ni fyddai unrhyw amodau ar drwydded y safle yn gymwys ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu wrth y rhai oedd yn bresennol fod yr ymgeiswyr wedi derbyn yr amodau a nodwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru a Rheoli Llygredd. Felly byddai'r cais yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Sylwadau Personau Eraill

Derbyniodd y Pwyllgor hefyd sylwadau gan nifer o breswylwyr lleol. Cododd Greg Clark bryderon ynglŷn â chael pobl ifanc ac alcohol yn agos i'w gilydd. Bu nifer o ddigwyddiadau ym Marina Penarth ac ar Afon Elái a gydag ychwanegu cerddoriaeth fyw ac alcohol roedd perygl y byddai digwyddiadau o'r fath yn gwaethgu.

Cododd Jean Foxhall bryderon ynghylch sŵn cyffredinol o Ganolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd. Roedd o'r farn bod y cyfleuster, yn y bôn, wedi'i adeiladu yn y lle anghywir gan ei bod yn amlwg y gellir clywed unrhyw sŵn, gan gynnwys sgysiau cyffredin, yn y fflatiau gyferbyn. Pan fydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar y safle yna byddai cerddoriaeth fyw a mwy o bobl yn gwneud problemau sŵn yn waeth, yn enwedig cerddoriaeth fyw tan 11 yr hwyr. Roedd Mrs Foxhall hefyd yn pryderu am faterion diogelwch, wrth gyfuno alcohol a phlant.

Roedd Paul Foxhall yn rhannu'r pryderon a fynegwyd eisoes. Dywedodd Mr Foxhall y gallai ymdopi â nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r drwydded yn caniatáu cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd Mr Foxhall ei fod bob amser wedi gweld Ben Longhurst, y rheolwr presennol, yn ystyriol iawn o breswylwyr. Fodd bynnag, gall rheolwr arall reoli digwyddiadau'n wahanol ac efallai na chaiff ei ystyried felly.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynwyd y cais gan Stephen Burkitt-Harrington. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais yn ymddangos yn syml. Mae gan Ganolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd drwydded safle sydd eisoes yn cael ei dyfarnu i'r tenantiaid presennol yn y caffi. Roedd y cais yn ceisio ailymgeisio i roi trwydded y safle yn enw Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd. Byddai hyn yn rhoi unrhyw weithgaredd trwyddadwy yn cael ei gynnal dan reolaeth Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod digwyddiadau wedi bod yn cael eu cynnal yn y safle ers 9 mlynedd. Mae'r rheolwr wedi ymdrechu bob amser i ymgysylltu â thrigolion lleol ac mae trigolion lleol bob amser yn cael eu hystyried, er enghraifft wrth leoli systemau sain.

Dywedodd Stephen Burkitt-Harrington ei fod wedi gweithio'n bersonol mewn partneriaeth â Chanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd fel Cyfarwyddwr Digwyddiadau ers 2012/13. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r lleoliad wedi cynnal dau ddigwyddiad Cwpan y Byd yn llwyddiannus ac mae wedi cael ei gydnabod fel canolfan ragoriaeth yn ei faes. Caiff digwyddiadau eu rheoli'n dda bob amser ac mae gan y ganolfan gyfrifoldeb i sicrhau bod digwyddiadau yn gynaliadwy ac y bydd hynny'n parhau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes bwriad i gynyddu nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal. Byddai'r drwydded y gwnaed cais amdani yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd.

Anerchodd Ben Longhurst yr is-bwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau bod Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd wedi gwerthu alcohol am 9 mlynedd a bod ganddynt record ddiogelwch ragorol. Ni chaniateir yfed alcohol cyn rafftio. Bydd rhai o'r noddwyr yn cael diod ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau, ond nid ydynt yn cael eu hannog i aros ar y safle drwy'r dydd. Cyfyngir yr yfed i ardal y caffi a'r balconi. Ar gyfer diwrnodau digwyddiadau, byddai hyn yn cael ei ymestyn i ardal y patio. Wrth ymateb i gwestiwn gan aelod o'r is-bwyllgor, cadarnhaodd Ben Longhurst na fyddai unrhyw un yn yfed yn agos i'r dŵr gan fod y dŵr wedi'i ffensio'n ddiogel ac wedi'i amgáu'n llwyr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 'Paddlefest' yn cael ei chynnal unwaith y flwyddyn. Darperir cerddoriaeth fyw hyd at tua 5:00pm a cherddoriaeth wedi'i recordio ar ôl hynny. Mae'r band wedi'i leoli o dan y balconi, ond gellir adolygu'r trefniant hwn gan fod nifer o adeiladau preswyl wedi'u hadeiladu'n ddiweddar ger y lleoliad. Yn y gorffennol mae staff wedi patrolio'r ardal allanol ac wedi monitro'r sŵn gyda mesuryddion sain. Atgoffwyd Aelodau y cytunwyd na ddylai'r sŵn fod yn fwy na 65dbs yn yr eiddo preswyl agosaf, pe bai'r drwydded yn cael ei chytuno. Yn ystod digwyddiad Slalom y DU ceir ychydig o sylwebaeth yn ystod rasys. Mae hefyd un sgrinio sinema awyr agored wedi bod, a gorffennodd erbyn 9:00pm

Nid oes gan Ganolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd unrhyw gynlluniau ar unwaith i gynyddu nifer y digwyddiadau a gynhelir. Dywedodd Ben Longhurst fod preswylwyr yn cael rhybudd o unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnig – tua mis ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD - Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad a Pholisi Trwyddedu'r Awdurdod

Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

56 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am